# Gadewch i ni siarad gyda'n gilydd am

# Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn eich ardal!

HEDDLU GWENT POLICE

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent County Borough Council

Tai Calon Community Housing

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT • AELODAU ETHOLEDIG • TAI CALON • HEDDLU GWENT • PRESWYLYDD

## LANSIO YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOl SIARAD GYDA'N GILYDD

## YM MAI 2024



| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| CYNHALIWYD **5** DIGWYDDIAD | TRAFOD YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL GYDA PHRESWYLWYR | DARPARWYD AR-WEINIAD AR FYND I'R AFAEL AG YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL I **1,340** O BRESWYLWYR | DOSBARTHWYD **703** O BECYNNAU GWRTH-FWRGLERIAETH I GARTREFI | COFRESTRWYD **55** O BRESWYLWYR ar gyfer Rhybuddion Diogelwch Cymunedol trwy 'Fy Ngwasanaethau Cyngor' |

## Eich Prif Bryderon Ynghylch Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Oedd



- NIWSANS SWN
- TELEDU CYLCH CYFYNG
- CERBYDAU ODDI AR Y FFORDD
- GWEITHGAREDDAU I BOBL IFANC
- BAW CWN

Gadewch i ni siarad gyda'n gilydd am...

# Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn eich ardal!

siaradoch chi gwrandawon ni

Rydym yn gweithio ar y cyd â Heddlu Gwent, Tai Calon a Gwasanaeth Ieuenctid Blaenau Gwent fel tasglu amlasiantaethol newydd, gan gyfarfod bob pythefnos i ddarparu ymateb wedi'i dargedu i ymddygiad gwrthgymdeithasol.

"Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn bryder gwirioneddol yn ein hardal."



Mae Cyngor Blaenau Gwent wedi cyflwyno pedwar Warden Diogelwch Cymunedol newydd, a ddarperir gan District Enforcement Ltd, i gynnig ataliad gweledol ar gyfer troseddau ymddygiad gwrthgymdeithasol ac i weithredu fel tystion proffesiynol gyda ffilm camera corff. Mae'r wardeiniaid yn gweithio tuag at y Cynllun Achredu Diogelwch Cymunedol, sy'n eu galluogi i gael eu hachredu gan Brif Gwnstabliaid Heddlu Gwent gyda phwerau targedig i wella diogelwch cymunedol. Cadwch lygad amdanynt!

"Mae angen mwy o swyddogion ar y strydoedd."

"Rwy'n gweld beicio anghyfreithlon oddi ar y ffordd."

Ynghyd â phatrolau stryd a chuddwylio gan ddronau, mae eich galwad i 101 i roi gwybod am weld cerbyd oddi ar y ffordd neu lle mae'r troseddwyr hyn yn byw yn hanfodol wrth lunio darlun i fynd i'r afael â gweithgareddau anghyfreithlon. Gydag achos perthnasol, mae Heddlu Gwent yn annog timau ward lleol a Swyddogion Cymorth Cymunedol i ddefnyddio pwerau atafaelu o dan adran 59 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002.

*Gyrru yn Rhywle heblaw Ffordd yn Groes i Adran 34 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988; Gyrru'n Ddiofal neu'n Anystyriol yn Groes i Adran 3 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988.*

**Gadewch i ni siarad gyda'n gilydd am...**

# Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn eich ardal!

## siaradoch chi gwrandawon ni

Mae'r Fan Ieuenctid Ddatgysylltiedig yn gwneud gwaith allgymorth mewn ardaloedd lle mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn broblem, gan ddod â gemau a gweithgareddau'n uniongyrchol i'r mannau lle mae pobl ifanc yn cymdeithasu. Mae Gwasanaeth Ieuenctid BG yn cynnig llawer o weithgareddau i bobl ifanc a gallwch chi ddarganfod mwy amdanynt ar ei dudalen Facebook.

"Nid oes digon yn digwydd i bobl ifanc."



Mae teledu cylch cyfyng newydd wedi'i osod ym Mlaenau ac Abertyleri ac mae teledu cylch cyfyng sydd eisoes ar waith wedi'i uwchraddio, gan gyfrannu at y cynllun teledu cylch cyfyng sydd gan y cyngor sy'n cwmpasu chwe pharth canol tref. Mae ei effeithiolrwydd yn dibynnu ar waith partneriaeth rhwng y cyhoedd, yr heddlu a'r cyngor. Anogir y cyhoedd i adrodd am ddigwyddiadau i'r heddlu a, lle bo'n briodol, i'r cyngor. Er nad yw teledu cylch cyfyng yn ateb i bob problem, mae'n arf gwerthfawr yn y pecyn cymorth helaeth sydd gan y cyngor a'r heddlu i gadw ein cymunedau'n ddiogel.

"Mae angen mwy o deledu cylch cyfyng."

"Beth am bobl sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd neu sy'n gweithio tan 5pm?"

Bydd y rhan fwyaf o sesiynau 'Siarad gyda'n Gilydd' yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb gyda'n Swyddog Cynhwysiant Digidol wrth law yn darparu cefnogaeth a chymorth TG. Cynhaliwyd tri o bump o'n digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol ar ôl 5pm ac rydym yn bwriadu ystyried hyn ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol.

"Rwy'n profi niwsans sŵn yn fy nghymdogaeth."

If you are unable to resolve the issue yourself, you can report any incidents of noise nuisnace to your Housing Assocation e.g., Tai Calon, and BGCBC Environmental Health by using the 'My Council Services' app or calling the contact centre on 01495 311556.

Rydym yn annog trigolion yn fawr i roi gwybod am achosion o faw cŵn drwy ap Fy Ngwasanaethau Cyngor. Mae hyn yn ein galluogi i roi Hysbysiadau Cosb Benodedig i helpu i gadw ein strydoedd yn lân ac atal troseddwyr. Mae ein Wardeiniaid Diogelwch Cymunedol hefyd yn gysylltiedig â Wardeiniaid Gorfodi i roi gwybod am unrhyw faw cŵn.

"Mae problem gyda baw cŵn yn fy ardal i."

HEDDLU GWENT POLICE

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent County Borough Council

Tai Calon Community Housing